**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL Y LLUOEDD ARFOG 2026**

1. Mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, a bod modd cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd Bil y Lluoedd Arfog ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 15 Ionawr 2026 a'i ailgyflwyno fel rhan o raglen ddeddfwriaethol newydd Llywodraeth y DU ar 14 Mai 2026. Mae'r Bil i'w weld yma: Bil y Lluoedd Arfog

## Amcan(ion) y Polisi

3. Dyma'r amcanion polisi fel y cawsant eu nodi gan Lywodraeth y DU:

- Adnewyddu Deddf y Lluoedd Arfog 2006 a thrwy hynny sicrhau bod y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n llywodraethu'r Lluoedd Arfog yn parhau i fod mewn grym
- rhoi Cyfamod y Lluoedd Arfog mewn cyfraith yn llawn
- sefydlu'r Gwasanaeth Tai Amddiffyn i gynyddu nifer y tai amddiffyn sydd ar gael ac i wella eu hansawdd
- gwneud darpariaeth ynghylch gwasanaethu yn y Lluoedd Wrth Gefn ac ehangu'r gronfa o Filwyr Wrth Gefn
- gwneud darpariaeth ynghylch System Cyfiawnder y Lluoedd Arfog
- gwneud darpariaeth ynghylch lluoedd sy'n ymweld
- gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau amddiffyn yr Asiantaeth Olew a Phiblinellau
- gwneud darpariaeth ynghylch diogelu gweddillion milwrol.

## Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

5. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cynnwys:

- Adnewyddu Deddf y Lluoedd Arfog 2006 am bum mlynedd arall (tan 2031)

[1] Sylwch ein bod, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf ac fel "y Senedd" wedi hynny oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

- Ehangu’r ddyletswydd gyfreithiol i roi sylw dyladwy i Gyfamod y Lluoedd Arfog i gynnwys Llywodraeth y DU a’r Llywodraethau Datganoledig
- Creu Gwasanaeth Tai Amddiffyn newydd i wella ansawdd tai amddiffyn a'r cyflenwad ohonynt
- Creu trefn awdurdodi newydd i fynd i'r afael â gweithgarwch dronau ar yr ystad amddiffyn
- Amddiffyn rhag ymddygiad rhywiol a threisgar, stelcio ac aflonyddu
- Cymorth i ddioddefwyr troseddau'r lluoedd arfog
- Ymchwilio, arestio a chyhuddo
- Dyletswyddau a phwerau prif swyddogion
- Llysoedd y lluoedd arfog
- Gwahardd rhag gyrru
- Ailsefydlu troseddwyr
- Comisiynydd y Lluoedd Arfog
- Lluoedd Wrth Gefn
- Lluoedd sy'n ymweld
- Heddlu’r Weinyddiaeth Amddiffyn
- Ceir nifer o ddarpariaethau amrywiol fel creu pwerau cyfreithiol i gadw pobl sy'n gwasanaethu dramor yn gaeth mewn achosion o anhwylder meddwl a dynodi pob llongddrylliad milwrol yn fannau gwarchodedig yn awtomatig.

Yn benodol, mae'r Bil yn ceisio:

- Dod ag adrannau'r DU a Llywodraethau Datganoledig o dan gwmpas y ddyletswydd i roi sylw dyladwy i’r Cyfamod, gan ymestyn y ddyletswydd bresennol sy'n berthnasol yng Nghymru ar hyn o bryd i awdurdodau lleol a chyrff iechyd ac addysg.
- Ymestyn y ddyletswydd i feysydd polisi ychwanegol (materion perthnasol), sef: gofal plant, addysg a hyfforddiant, cyflogaeth, iechyd a gofal cymdeithasol, tai, budd-daliadau nawdd cymdeithasol, trethiant personol, cyfiawnder troseddol, trafnidiaeth, pensiynau, mewnfudo a dinasyddiaeth, ac iawndal y Lluoedd Arfog.
- Newid y ddyletswydd bresennol o fod yn berthnasol i nifer o ‘faterion penodedig’ o fewn swyddogaeth berthnasol e.e. ‘Digartrefedd’ o fewn y swyddogaeth Tai, i ddiffiniad ehangach heb unrhyw faterion penodedig e.e. ‘swyddogaeth dai berthnasol’.
- Gwneud darpariaeth, wrth arfer y swyddogaeth, bod yr asesiad o’r anfantais sy'n deillio i aelodau/cyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn sgil gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn cael ei gynnal drwy gyfeirio at bobl eraill mewn amgylchiadau tebyg nad ydynt yn aelodau/cyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Bydd hyn yn awr yn cael ei bennu mewn deddfwriaeth sylfaenol.
- Diwygio pŵer gwneud rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol o'r pŵer presennol i ganiatáu <u>ychwanegu</u> swyddogaethau a phersonau neu gyrff yn unig, i ganiatáu hefyd i faterion a phersonau gael eu dileu neu eu haddasu.

- Sefydlu corff newydd - y Gwasanaeth Tai Amddiffyn - fel rhan allweddol o Strategaeth Tai Amddiffyn 2025. Ei rôl yw cynyddu nifer y tai amddiffyn sydd ar gael a gwella eu hansawdd, adfywio neu ddatblygu tir a ddefnyddir at ddibenion amddiffyn, cefnogi datblygiad cymunedau'r lluoedd arfog, a hyrwyddo eu lles parhaus.
- Rhoi pwerau i staff Amddiffyn ddefnyddio offer cymeradwy i ganfod, atal a threchu troseddau sy'n ymwneud â dronau ar safleoedd Amddiffyn.
- Moderneiddio a gwella'r cymorth i ddioddefwyr yn System Cyfiawnder y Lluoedd Arfog (SJS). Sicrhau bod System Cyfiawnder y Lluoedd Arfog yn gallu amddiffyn dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol rhag niwed pellach: Gwella effeithiolrwydd/effeithlonrwydd System Cyfiawnder y Lluoedd Arfog.
- Cysoni'r ddeddfwriaeth ar amddiffyn y cyhoedd ar gyfer y rhai sy'n cael eu dedfrydu i garchar gan Lysoedd y Lluoedd Arfog am droseddau difrifol penodol e.e. troseddau treisgar difrifol a rheolaeth drwy orfodaeth, fel eu bod yn destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd yn yr un modd â phobl yn y system cyfiawnder troseddol sifil.
- Ymestyn cylch gwaith Comisiynydd y Lluoedd Arfog i gynnwys y Fflyd Frenhinol Atodol.
- Disodli Cymdeithasau'r Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid â chorff cyhoeddus anadrannol cenedlaethol newydd a fydd yn ymgymryd â'i swyddogaethau.
- Ehangu cronfa'r Lluoedd Wrth Gefn; Galluogi trosglwyddo'n rhwydd rhwng y lluoedd rheolaidd a'r lluoedd wrth gefn; Rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol awdurdodi galw aelodau o'r lluoedd wrth gefn yn ôl ar gyfer gweithrediadau tebyg i ryfel sy'n cael eu paratoi neu eu cynnal.
- Cael gwared ar ofynion adrodd 'Pleidleisiau A' ('Votes A') i Senedd y DU mewn perthynas â lluoedd wrth gefn ac ymrwymiadau.
- Galluogi Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MDP) i ymdrin â throseddau sy'n croesi ffiniau cenedlaethol.
- Galluogi staff y lluoedd arfog (neu staff sifil sy'n ddarostyngedig i ddisgyblaeth y lluoedd arfog) i gael eu cadw'n gaeth pan fydd eu hiechyd meddwl yn peri risg sylweddol iddynt hwy eu hunain neu i eraill tra maent yn gwasanaethu dramor.
- Diwygio Deddf Olew a Phiblinellau 1985 i ehangu'r ffynonellau ynni a'r tanwyddau y gall yr Asiantaeth Olew a Phiblinellau gyflawni ei swyddogaethau amddiffyn mewn perthynas â hwy.

**Ymgysylltu â Llywodraeth y DU**

6. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau cynnar a buddiol â swyddogion yn y Weinyddiaeth Amddiffyn wrth i'r Bil gael ei ddatblygu. Mae'r ymgysylltu cadarnhaol hwn wedi parhau ar ôl i'r Bil basio drwy Senedd y DU ac wrth iddo gael ei ailgyflwyno.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

7. Mae darpariaethau'r Bil yn gosod swyddogaethau ar nifer o Awdurdodau Datganoledig Cymreig (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru, cyrff addysg ac iechyd) a/neu'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Mae'r darpariaethau'n ymwneud â gweithrediad gwasanaethau cyhoeddus Cymru a'r materion y dylai'r cyrff cyhoeddus hynny eu hystyried wrth arfer eu swyddogaethau (er bod rhai o'r rhain yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl fel mewnfudo, trethiant a chyfiawnder troseddol).

8. Mae angen cydsyniad Senedd Cymru ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â'r cymalau canlynol:

<u>Cymal 2 - Cyfamod y Lluoedd Arfog</u>

Mae'r cymal hwn yn ymestyn y ddyletswydd gyfreithiol sylw dyladwy bresennol i Weinidogion Cymru, a bydd yn ofynnol iddynt roi sylw dyladwy i egwyddorion y cyfamod wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus mewn perthynas â mater penodedig. Mae awdurdodau lleol, cyrff addysg a chyrff iechyd yng Nghymru eisoes yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon mewn meysydd iechyd, tai ac addysg penodedig. Mae'r materion penodedig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd estynedig yn cynnwys nifer o feysydd polisi datganoledig, fel trafnidiaeth. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â dyletswydd y cyfamod. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi canllawiau o'r fath i'r graddau y maent yn ymwneud â swyddogaethau datganoledig yng Nghymru. Rhoddir pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio'r cyrff a'r swyddogaethau sy'n dod o fewn cwmpas y ddyletswydd. Cyn gwneud hynny, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, i'r graddau y mae'r rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sydd o fewn 'maes lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli yng Nghymru'. Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi swyddogaethau a gedwir yn ôl i awdurdodau datganoledig Cymreig a Gweinidogion Cymru ac felly mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer.

9. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i unrhyw newidiadau i gwmpas y Bil neu i'r canllawiau statudol fod yn ddarostyngedig i gydsyniad Gweinidogion Cymru, yn hytrach nag i ymgynghoriad. Byddaf yn diweddaru'r Senedd ar ôl ymgysylltu pellach ynghylch hyn.

<u>Cymal 3, Atodlen 1 - Tai ac eiddo amddiffyn arall</u>

10. Mae Cymal 3 ynghyd ag Atodlen 1 yn sefydlu'r Gwasanaeth Tai Amddiffyn i wella'r cyflenwad o dai amddiffyn a'u hansawdd ac i reoli eiddo cysylltiedig. Mae ei swyddogaethau'n cynnwys gwella tai amddiffyn a rheoli tir a ddefnyddir at ddibenion amddiffyn. Gall y

Gwasanaeth gynhyrchu incwm o eiddo a rhaid iddo gydymffurfio â chytundebau a wnaed gyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Rhoddir pwerau prynu gorfodol i gaffael tir ar gyfer tai amddiffyn. Mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol er mwyn rhoi pwerau prynu gorfodol i'r Gwasanaeth Tai Amddiffyn gan mai swyddogaeth Gweinidogion Cymru yw galluogi cyrff i gaffael tir yn orfodol yn y maes tai.

Cymal 9 - Asesiad ac ati o’r risgiau y mae troseddwyr penodol yn eu hachosi

11. Bydd y cymal hwn yn cysoni’r ddeddfwriaeth ar amddiffyn y cyhoedd ar gyfer y rhai sy'n cael eu dedfrydu i garchar gan Lysoedd y Lluoedd Arfog am droseddau difrifol penodol e.e. troseddau treisgar difrifol a rheolaeth drwy orfodaeth, fel eu bod yn destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd yn yr un modd â phobl yn y system cyfiawnder troseddol sifil. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi swyddogaethau a gedwir yn ôl i awdurdodau datganoledig Cymreig yn rhinwedd gofynion y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd ac felly mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer.

Cymal 10 – Dioddefwyr troseddau’r lluoedd arfog

12. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Cod Ymarfer ar gyfer y rhai sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr troseddau’r lluoedd arfog. Mae'r Cod Ymarfer yn ymwneud â system cyfiawnder y lluoedd arfog, sy'n fater amddiffyn a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, gallai hyn effeithio ar awdurdodau datganoledig sy'n darparu cymorth. I'r graddau y mae hyn yn rhoi swyddogaethau a gedwir yn ôl i awdurdodau datganoledig Cymreig, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Cymal 25 - Canllawiau ar arfer awdurdodaeth droseddol

13. Mae'r cymal hwn yn creu dyletswydd statudol newydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau i ddioddefwyr yn system cyfiawnder y lluoedd arfog ynghylch awdurdodaeth gydredol. Mae’r cymal yn darparu bod yn rhaid i unrhyw berson sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus sy’n ymwneud â dioddefwyr ymddygiad honedig o’r math a grybwyllir yn is-adran (1), neu unrhyw agwedd ar y system cyfiawnder troseddol, roi sylw i ganllawiau o dan yr adran hon pan fo’r person yn arfer swyddogaeth o’r fath, a bod y canllawiau’n berthnasol i arfer y swyddogaeth honno. Mae swyddogaethau o'r fath yn debygol o gynnwys awdurdodau datganoledig Cymreig, ac felly mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Cymal 37, Atodlen 6 - Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a’r Cadetiaid

14. Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran 111A newydd yn Neddf Lluoedd Wrth Gefn 1996 ac yn diddymu'r Cymdeithasau a sefydlwyd o dan adran 110 o'r Ddeddf honno. Mae adran 111A yn creu corff corfforedig newydd, sef Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid. Mae Atodlen 6 yn nodi manylion y corff newydd. Roedd y ddeddfwriaeth yn pennu bod byrddau'r Cymdeithasau a sefydlwyd o dan adran 110 Deddf Lluoedd Wrth Gefn 1996 yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol. I'r graddau y mae'r cymal hwn yn addasu swyddogaethau awdurdodau datganoledig Cymreig, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Cymal 50 – Dehongli

15. I'r graddau y mae'r cymal hwn yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i gymalau y nodwyd bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer, mae'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

Cymal 52 - Rhychwant yn y Deyrnas Unedig

16. I'r graddau y mae'r cymal hwn yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i gymalau y nodwyd bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer, mae'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

Cymal 54 - Cychwyn a darpariaethau trosiannol

17. I'r graddau y mae'r cymal hwn yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i gymalau y nodwyd bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer, mae'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**Gwelliannau'r Llywodraeth yn dilyn Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad ar eu cyfer:**

18. Cymal 25 – Canllawiau ar arfer awdurdodaeth droseddol (gwelliant 33). Mae'r gwelliant hwn i gymal 25 yn rhoi eglurhad pellach ynglŷn â'r canllawiau sydd i'w cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fel y nodir uchod, mae cymal 25 yn creu dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaethau i ddioddefwyr yn system cyfiawnder y lluoedd arfog. Gan yr ystyrir bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymal 25, oherwydd y gall y canllawiau fod yn gymwys i awdurdodau datganoledig Cymreig, ystyrir bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd mewn perthynas â'r gwelliant eglurhaol hwn.

19. Cymal 54 – Cychwyn a darpariaeth drosiannol (gwelliant 48). I'r graddau y mae'r gwelliant hwn yn cynnwys darpariaeth sy'n berthnasol i gymalau y nodwyd bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer gwelliant 48.

20. Atodlen 1 – Tai ac eiddo amddiffyn arall (gwelliannau 49, 50, 51, 52 a 54). Mae'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'r Gwasanaeth Tai Amddiffyn, yn ogystal â chymal 3 ac Atodlen 1 i'r Bil, y mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer. Ar y sail honno, ystyrir bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y gwelliannau hyn hefyd.

## Barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad

21. Daw dadansoddiad datganoli Llywodraeth y DU i'r casgliad bod angen cydsyniad ar gyfer **Cymal 2 - Cyfamod y Lluoedd Arfog**. Rwy'n cytuno â'r asesiad hwn, ac o ystyried y graddau y mae'r darpariaethau hyn yn rhoi swyddogaethau a gedwir yn ôl i awdurdodau datganoledig Cymreig a Gweinidogion Cymru, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

22. Nid yw Llywodraeth y DU yn gofyn am Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer unrhyw ddarpariaeth arall yn y Bil. Fodd bynnag, fy marn i yw bod angen cydsyniad hefyd mewn perthynas â'r cymalau a'r gwelliannau uchod, fel yr amlinellir ym mharagraffau 8 i 22.

## Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru ym Mìl y Lluoedd Arfog

23. Mae cymorth i Gymuned Lluoedd Arfog y DU yn cynnwys meysydd a gedwir yn ôl a meysydd datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymestyn Cyfamod y Lluoedd Arfog a chryfhau'r gefnogaeth i gymuned y Lluoedd Arfog. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog ac wedi datblygu polisïau sy'n gyson â'r ymrwymiad hwnnw, gan gynnwys:

- Ariannu Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog (AFLO), sy'n cefnogi awdurdodau lleol i gynnal egwyddorion y Cyfamod;
- Ariannu gwasanaeth iechyd meddwl Cyn-filwyr GIG Cymru ar gyfer cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog;
- Darparu prosiect Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru (SSCE), sy'n cefnogi plant y Lluoedd Arfog.

24. Mae'n briodol defnyddio Bil y DU i wneud y darpariaethau hyn gan eu bod yn rhai sydd y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r darpariaethau a wneir yn y Bil yn ymwneud ag amddiffyn, sy'n fater a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan fod nifer o ddarpariaethau yn y Bil yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru a/neu Awdurdodau Datganoledig Cymreig, neu'n dileu neu'n addasu eu swyddogaethau, neu'n rhoi sylw fel arall i faterion datganoledig fel y nodir uchod.

## Goblygiadau ariannol

25. Bydd angen i gostau rhoi’r Bil ar waith yng Nghymru gael eu talu o’r cyllidebau presennol.  Nid oes cyllid gan Lywodraeth y DU i'r Llywodraethau Datganoledig yn gysylltiedig â'r Bil hwn a'i roi ar waith. Mae hyn yn debyg i Ddeddf y Lluoedd Arfog 2021, a osododd ddyletswydd sylw dyladwy ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ysgolion yng Nghymru.  Yn ei Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth y DU yn nodi bod cost bosibl rhoi’r bil ar waith i Adrannau Llywodraeth y DU rhwng £307k ac £1.5 miliwn.

**Casgliad**

26. Rwy'n gefnogol o egwyddorion y Bil. Byddaf yn parhau i fonitro a darparu diweddariadau ar daith y Bil hwn drwy Senedd y DU. Byddaf yn cyflwyno argymhelliad i'r Senedd ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad i'r Bil unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi dadansoddi effaith ehangach rhaglen ddeddfwriaethol y DU ar Gymru.

**Sioned Williams AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb**
**23 Mehefin 2026**